Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

at -

yr holl sefydliadau yn Atodiad A

Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Eich cyf / Your ref:
Ein cyf / Our ref :

Dyddiad / Date: 22 Awst 2008

Annwyl Gyfaill

CYLCHLYTHYR LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU: WAGC 26/2008

Y RHAGLEN GRANT RHEOLI TAI CYMDEITHASOL: CYLLIDO PROSIECTAU – CYLCH 2009-10

Y Cefndir

1. Mae gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer tai cymdeithasol yn cael ei hamlinellu yn y ddogfen "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru: Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru". Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod tai cymdeithasol o ansawdd da ar gael i'r bobl hynny y mae arnynt eu hangen. Erbyn 2012, dylai holl dai cymdeithasol Cymru gyrraedd safonau uchel o ran eu cyflwr ac o ran y modd y maent yn cael eu rheoli.

2. Diben y Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol yw rhoi cymorth i sicrhau safonau uchel o ran rheoli tai. Mae'r Rhaglen yn rhoi cymorth ar gyfer prosiectau sy'n:

   - treialu polisïau a chynlluniau arloesol o ran rheoli tai;
   - datblygu arferion da o ran rheoli tai;
   - helpu i weithredu polisïau newydd o ran rheoli tai.

3. Rydym yn defnyddio'r pwerau a ganlyn i roi grantiau o dan y Rhaglen:

   - Defnyddir Adran 16 o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 (sy'n mewnosod Adran 429A i Ddeddf Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998) i roi cymorth ariannol i bersonau sy'n:
     - ceisio hwyluso neu annog gwelliannau i'r modd y mae tai'n cael eu rheoli yn y sector cyhoeddus, neu sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â hynny;

Ffon / Tel: 01685 729211

Ffacs / Fax: 01685 729548

E-bost / E-mail:carl.spiller@wales.gsi.gov.uk

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

- darparu cyrsiau addysgol neu gyrsiau hyfforddiant ym maes rheoli tai.

- Defnyddir Adran 87 o Ddeddf Cymdeithasau Tai 1985, sydd wedi ei disodli gan Adran 183 o Ddeddf Tai a Llywodraeth Leol 1989 (a'i diwygio gan Adran 55(1) o Ddeddf Tai 1996 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998) i roi grantiau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac i sefydliadau gwirfoddol eraill er mwyn helpu gyda threuliau sy'n gysylltiedig ag annog a rhoi cyngor ar sefydlu a rheoli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

- Defnyddir Adran 126 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 i roi cymorth ariannol i bersonau sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n cyfrannu at adfywio neu ddatblygu ardal trwy wella gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl leol.

4. Mae'r pwerau hyn wedi eu trosglwyddo i'r Cynulliad gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.

Y Rhaglen Gyfredol

5. Ers mis Ebrill 2002, cyllidwyd dros 200 o brosiectau o dan y Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol, a hynny yn y meysydd a ganlyn:

- Gosod a marchnata tai cymdeithasol;
- Gwerth Gorau;
- Hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid a hyfforddiant mewn perthynas ag anghenion cyffredinol a thai â chymorth;
- Datblygu Strategaethau Tai Lleol;
- Datblygu cynlluniau busnes ar gyfer y stoc tai cyngor;
- Ystyried a gwerthuso dulliau amgen o reoli tai cymdeithasol;
- Cyngor ar dai a gwybodaeth i bobl ag anableddau;
- Tai ac iechyd;
- Rheoli tai ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Helpu pobl ifanc i gael tai ac i'w cadw;
- "Gorwelion Newydd" – arloesi ym maes rheoli tai cymdeithasol;
- Helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain a gweithgareddau tai eraill sy'n gysylltiedig â gwella iechyd;
- Cael gafael ar dai;
- Cynnal tenantiaethau;
- Datblygu gwasanaethau o ansawdd ym maes rheoli tai;
- Gwaith rhanbarthol a gwaith trawsbynciol;
- Cael gafael ar dai a gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig;
- Prif ffrydio arferion da o ran rheoli tai; hyfforddiant, cymorth a lledaenu gwybodaeth;
- Creu'r Cysylltiadau o ran rheoli tai.

Rhaglen 2009-10

6. Ystyrir cyllido prosiectau o dan y themâu a ganlyn:

- Swyddogion Galluogi Tai Fforddiadwy
- Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd
- Adfywio drwy helpu i wella lefelau gweithgarwch economaidd
- Diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio

Strategaethau Lleol a Gweithio mewn Partneriaeth

7. Mae'n bwysig bod prosiectau'n addas ar gyfer y cyd-destun lleol a/neu ranbarthol. Wrth gyflwyno ceisiadau, dylid dangos sut y maent yn cyd-fynd â'r Strategaeth Dai Leol a chynlluniau strategol eraill yn yr ardal o dan sylw. Dylid esbonio sut y mae'r prosiect yn cyd-fynd â'r hyn sy'n digwydd ar y lefelau perthnasol, megis y lefelau rhanbarthol a chymunedol ac ar lefel yr awdurdod lleol. Dylid hefyd ystyried polisïau eraill, megis y Rhaglen ar gyfer Gwella/Gwerth Gorau a Chymunedau yn Gyntaf, wrth baratoi ceisiadau.

8. Ffefrir ceisiadau am brosiectau sy'n seiliedig ar bartneriaeth ac sy'n manteisio ar adnoddau ac arbenigedd sefydliadau sydd â nod cyffredin.

Cynnwys Cymunedau

9. Lle bynnag y bo modd, dylid rhoi rhan i'r "grŵp targed" yn ystod pob cam o'r prosiect, o'r cam llunio cynigion, drwy'r cyfnod o'u gweithredu, hyd at y gwerthusiad terfynol. Gan amlaf, bydd y grŵp targed yn cynnwys y tenantiaid presennol a grwpiau a ffederasiynau preswylwyr. Mewn achosion eraill, gallai olygu bod angen ymgysylltu â sefydliadau cymunedol neu denantiaid a phreswylwyr allweddol. Dylai'r arferion gorau o ran cynnwys tenantiaid ac ymgynghori â hwy gael eu hamlinellu mewn Compactau lleol ar Gyfranogiad Tenantiaid.

Paratoi Ceisiadau

10. Er mwyn arbed ymgeiswyr rhag treulio cryn amser a gwneud cryn ymdrech i ddatblygu cais na fydd, o bosibl, yn llwyddo, gofynnir iddynt gyflwyno datganiad cychwynnol o ddiddordeb. Os yw'r datganiad o ddiddordeb yn un llwyddiannus, caiff yr ymgeiswyr wahoddiad i wneud cais ffurfiol. Er hynny, hyd yn oed os gwahoddir hwy i wneud cais, dylai ymgeiswyr nodi na fydd hynny'n gwarantu y bydd eu cynigion yn cael eu cyllido. Ni ellir penderfynu'n derfynol ar ba brosiectau i'w cyllido o dan y Rhaglen nes i'r holl gynigion ddod i law a chael eu hasesu'n llawn yn unol â'r meini prawf cyllido, a nes iddynt gael sgôr gyffredinol a chael eu blaenoriaethu gan ystyried y lefelau o gyllid sydd ar gael.

Meini Prawf y Prosiect

11. Amlinellir y meini prawf cyffredinol y mae'n rhaid i'r holl gynigion eu bodloni yn Atodiad B. Mae meini prawf ychwanegol ar gyfer rhai o'r themâu, ac maent i'w gweld yn Atodiad C.

Dosbarthu Cyllid

12. Nid ydym wedi clustnodi cyllid penodol ar gyfer themâu, meysydd blaenoriaeth nac ar gyfer y mathau o brosiectau a ragwelir. Bydd y modd y dosberthir y cyllid yn dibynnu ar nifer y cynigion a ddaw i law ac ar eu cwmpas, eu hansawdd a'u cost.

Lefel y Cyllid Grant ar gyfer Prosiectau Unigol

13. Ar gyfer awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig:

- ni fydd y dyraniadau grant yn fwy na 50% o gostau'r prosiect;
- ni ddylai ymgeiswyr gynnwys eu costau rhedeg sylfaenol (e.e. costau staff craidd) yn y cyfraniad o 50% y maent yn ei wneud i'r prosiect.

14. Yn achos pob sefydliad arall, bydd cyfanswm y grant y byddwn yn ei roi ar gyfer costau cyffredinol unrhyw brosiect yn dibynnu ar:

- y polisi y mae'r prosiect yn ymwneud ag ef;
- natur y sefydliad, a'i sefyllfa ariannol.

15. Ni ellir derbyn cyfraniadau mewn da.

Lledaenu Canfyddiadau'r Prosiect

16. Mae'n bwysig bod y gwersi a'r arferion da sy'n deillio o'r prosiectau yn cael eu lledaenu'n eang, a'u bod yn dylanwadu ar bolisïau ac arferion rheoli tai cymdeithasol yn y dyfodol yng Nghymru, ar y lefel leol a chenedlaethol. Er bod gwelliant i'w weld o ran lledaenu gwybodaeth ac allbynnau sy'n deillio o brosiectau'r Grant Rheoli Tai Cymdeithasol, nid oes digon o sefydliadau'n anfon adroddiadau diwedd-y-prosiect i Lywodraeth y Cynulliad mewn da bryd ac, yn aml, nid ydynt yn anfon adroddiadau o gwbl. Mae'n bwysig bod yr adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n brydlon ar gyfer pob prosiect.

Sut i wneud cais am gyllid

17. Ar ôl llenwi'ch ffurflen gais, dylech ei hanfon at Carl Spiller, y Gyfarwyddiaeth Dai, erbyn **5.00pm, ddydd Gwener 17 Hydref 2008** fan hwyraf.

NI FYDDWN YN YSTYRIED CYNIGION SY'N CYRRAEDD YN HWYR

18. Mae canllawiau cam wrth gam ar sut i wneud cais am gyllid i'w gweld yn Atodiad D. Mae copi o'r ffurflen gais i'w weld yno hefyd.

19. Os hoffech cael fersiwn electronig o'r ffurflen gais, cysylltwch â Carl Spiller (mae'r manylion cyswllt i'w gweld isod). Lle bynnag y bo modd, hoffem i sefydliadau anfon eu ffurflen gais yn electronig i'r cyfeiriad e-bost isod. Er hynny, dylid hefyd gyflwyno copi caled o Adran 7 sydd â'r llofnod(ion) gwreiddiol arni yn hytrach na rhai sydd wedi'u llungopïo.

Ymholiadau

20. Os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â:

Carl Spiller ar 01685 729211
e-bost: housinggrantsadministration@wales.gsi.gov.uk
neu carl.spiller@wales.gsi.gov.uk

Yn gywir

PAUL WEBB
YR UNED STRATEGAETH A GWASANAETHAU TAI
Y GYFARWYDDIAETH DAI

Atodiad A

RHAGLEN GRANT RHEOLI TAI CYMDEITHASOL 2008-2009
RHESTR DDOSBARTHU

Pob Awdurdod Lleol yng Nghymru (Cadeirydd Tai, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Tai)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n datblygu yng Nghymru
Cymdeithas Abbeyfield, y Gogledd a'r De
Darparwyr Cymorth Achrededig yng Nghymru
Cymdeithas Caer Las Cyf
Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru
Age Concern Cymru
Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
Black Association of Women Step Out
Black Voluntary Sector Network
Gofal a Thrwsio Cymru
Sefydliad Tai Siartredig Cymru
Churches Coalition
Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
Y Comisiwn Hawliau Anabledd
Anabledd Cymru
Y Comisiwn Cyfle Cyfartal
Help The Aged
Cyfryngu Cymru
National Tenants Resource Centre
Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru
Race Equality First
Shelter Cymru
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe
Tai Pawb
Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (Cymru)
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Asiaidd Cymru
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Ffederasiwn Tenantiaid Cymru
Cymorth i Fenywod yng Nghymru
Ysgol Fusnes Caerdydd
Canolfan Rheoli a Datblygu Tai, Prifysgol Caerdydd
Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru
Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
Prifysgol Cymru, Abertawe
Grŵp Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan
Pob Prif Gwnstabl yng Nghymru
SYNIAD
HACAS Chapman Hendy
PEP
Ms Tamsin Stirling
Ms Monia Keeble
Mr Simon Inkson

Atodiad B

Y RHAGLEN GRANT RHEOLI TAI CYMDEITHASOL 2009-10
MEINI PRAWF CYFFREDINOL Y PROSIECT

Pwerau ac Amcanion

1. Er mwyn i gynnig gael ei gyllido, mae'n rhaid iddo fod:

   - o fewn pwerau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Amlinellir sail gyfreithiol y Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol yn y llythyr "gwahoddiad i wneud cais" (cylchlythyr);
   - yn gyson â phwerau ac amcanion yr ymgeisydd.

Canlyniadau

2. Dylid nodi canlyniadau ac effeithiau arfaethedig y prosiect yn glir.

3. Wrth gyflwyno cynnig, rhaid esbonio sut y bydd yn darparu model o arferion da o ran rheoli tai, yn treialu cynnig arloesol o ran rheoli tai neu'n helpu i roi polisi newydd ar waith ym maes rheoli tai.

Cyd-fynd â strategaethau eraill

4. Mae'n bwysig bod prosiectau'n addas ar gyfer y cyd-destun lleol a/neu ranbarthol. Wrth gyflwyno ceisiadau, dylid dangos sut y maent yn cyd-fynd â'r Strategaeth Dai Leol a chynlluniau strategol eraill yn yr ardal o dan sylw. Dylid dangos hefyd sut y bydd y ceisiadau'n gweithio ar y lefelau rhanbarthol a chymunedol ac ar lefel yr awdurdod lleol. Dylid hefyd ystyried polisïau eraill, megis y Rhaglen ar gyfer Gwella/Gwerth Gorau a Chymunedau yn Gyntaf, wrth baratoi ceisiadau. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau os nad yw'r cynlluniau strategaeth leol perthnasol wedi eu darparu neu os nad yw'r cynnig yn amlwg yn gyson â'r strategaeth berthnasol.

Partneriaethau a chyllido ar y cyd

5. Mae llawer o sefydliadau a phobl yn gallu cyfrannu at y gwaith o ddatblygu mentrau newydd ac arferion da ym maes tai cymdeithasol yng Nghymru. Dyna pam y **mae Llywodraeth y Cynulliad, yn benodol, am gefnogi prosiectau sy'n cynnwys:**

   - **partneriaethau ffurfiol;**
   - **cyd-gyllido;**
   - **cyllid ategol o wahanol ffynonellau.**

Ymgynghori

6. Lle bo ymgynghoriad allanol wedi'i gynnal er mwyn llywio'r cynnig, dylai'r ymgeisydd roi manylion cryno am y rheini yr ymgynghorwyd â hwy ac am ganlyniadau'r ymgynghoriad.

Cynnwys cymunedau

7. Lle bynnag y bo modd, dylid rhoi rhan i'r "grŵp targed" yn ystod pob cam o'r prosiect, o'r cam llunio cynigion, drwy'r cyfnod o'u gweithredu, hyd at y gwerthusiad terfynol. Gan amlaf, bydd y grŵp targed yn cynnwys y tenantiaid presennol a grwpiau a ffederasiynau preswylwyr. Mewn achosion eraill, gallai olygu bod angen ymgysylltu â sefydliadau cymunedol neu denantiaid a phreswylwyr allweddol. Dylid rhoi manylion yn y cais am y rhan y mae'r "grwpiau targed" yn ei chwarae.

Allbynnau, targedau a cherrig milltir penodol er mwyn mesur cynnydd

8. Fel rheol, bydd allbynnau penodol o ryw fath yn deillio o'r prosiectau a bydd angen nodi'r allbynnau hynny'n glir yn y cais. Fel arfer, byddant yn rhai pendant a gweladwy, megis adroddiad, cyhoeddiad neu ddigwyddiad. Er hynny, mae'n bosibl y bydd yn briodol defnyddio mesurau ansoddol ar gyfer prosiectau penodol.

9. Dylai pob cais gynnwys targedau a cherrig milltir y gall yr ymgeisydd eu defnyddio i fesur cynnydd a'i ddangos i Lywodraeth y Cynulliad. Dylid cynnwys ym mhob cais hefyd amserlen sy'n esbonio sut y bwriedir creu'r allbynnau mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

Amserlenni

10. Dylai'r prosiectau fod yn rhai sy'n para am gyfnod penodol. Ni all Llywodraeth y Cynulliad ymrwymo i roi cyllid am gyfnod penagored, felly mae'n rhaid wrth amserlen bendant ar gyfer pob prosiect.

Datganiad o gostau

11. Dylai'r cynnig gynnwys cyllideb sy'n cwmpasu:

- yr holl wariant a ragwelir ar y prosiect;
- yr holl ffynonellau arfaethedig o gyllid, gan gynnwys cyllid "cyhoeddus", cyllid "nad yw'n gyhoeddus" a "chyfraniadau mewn da";
- yr holl incwm rhagamcanol.

Lefel y cyllid grant ar gyfer prosiectau unigol

12. Ar gyfer awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig:

- ni fydd y dyraniadau grant yn fwy na 50% o gostau'r prosiect;
- ni ddylai ymgeiswyr gynnwys eu costau cynnal (e.e. costau staff craidd) yn y cyfraniad o 50% y maent yn ei wneud i'r prosiect.

13. Yn achos pob sefydliad arall, bydd cyfanswm y grant y byddwn yn ei roi ar gyfer costau cyffredinol unrhyw brosiect yn dibynnu ar:

- y polisi y mae'r prosiect yn ymwneud ag ef;
- natur y sefydliad, a'i sefyllfa ariannol.

Gwerth am arian

14. Mae'n rhaid i bob cais ddangos y caiff y canlyniadau eu cyflawni mewn modd cost-effeithiol (o ran ansawdd a chost). Gellir gwneud hyn, er enghraifft, trwy gyfeirio at gostau prosiectau eraill tebyg.

Ni fyddai'r prosiect yn digwydd heb gymorth grant

15. Ym mhob achos, rhaid i ymgeiswyr ddangos na fyddai'r prosiect yn digwydd o gwbl, neu na fyddai modd cynnal prosiect a fyddai'n briodol o ran ei ansawdd a'i safon, heb gyllid o dan y Grant Rheoli Tai Cymdeithasol. Dylid cynnwys esboniad o ba ffynonellau cyllid eraill sydd wedi cael eu hystyried er mwyn cyllido'r prosiect. Nod y Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol yw rhoi cyfle i brosiectau na fyddai'n gweld golau dydd fel arall.

Osgoi dyblygu

16. Lle bo hynny'n briodol, dylai'r cynnig ddangos nad yw'n dyblygu gwaith sydd eisoes wedi ei gyflawni, naill ai o dan y Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol neu drwy raglenni eraill. O'r herwydd, cynghorir ymgeiswyr i drafod eu cynnig gyda'r unigolyn priodol yn Llywodraeth y Cynulliad cyn cyflwyno'u ceisiadau (gweler y manylion cyswllt yn Atodiad B).

Lledaenu canfyddiadau

17. Er mwyn i bobl a sefydliadau eraill elwa ar y prosiect, dylai ymgeiswyr esbonio sut y byddent yn mynd ati i ledaenu canfyddiadau'r prosiect, o fewn eu sefydliadau eu hunain ac i eraill ledled Cymru. Dylai copïau o ddogfennau sy'n cael eu paratoi trwy'r cyllid a roddir ar gyfer y prosiect (megis adroddiadau diwedd-y-prosiect a nodiadau cyfarwyddyd) fod yn ddwyieithog, a dylid eu hanfon at y Gyfarwyddiaeth Dai.

Cyfle cyfartal

18. Disgwylir i ymgeiswyr feddu ar bolisïau cyfle cyfartal, a dylai Llywodraeth y Cynulliad gael bwrw golwg dros y polisïau hynny os yw'n gwneud cais i'r perwyl hwnnw. Mae'n rhaid rhoi arferion cyfle cyfartal ar waith ym mhob prosiect.

Ceisiadau clir a chyflawn

19. Nid yw ceisiadau anghyflawn neu geisiadau sydd wedi'u hysgrifennu'n wael yn debygol o gael cyllid. Dylai ymgeiswyr anelu at gyflwyno ffurflenni sy'n darparu'r wybodaeth berthnasol mewn arddull glir a chryno.

Atodiad C

Y Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol 2009-10

Mae'r Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol ar gyfer 2009-10 yn canolbwyntio ar gydweithio ac ar hyrwyddo arferion da ac arloesol. Gwahoddir ceisiadau o dan y themâu a ganlyn:

- Swyddogion Galluogi Tai Fforddiadwy
- Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd
- Adfywio drwy helpu i wella lefelau gweithgarwch economaidd
- Diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio

Y mathau o brosiectau a ffefrir

Ar wahân i geisiadau o dan y thema Swyddogion Galluogi Tai Fforddiadwy, dylai ceisiadau am gyllid ddangos sut y byddant yn darparu model o arferion da o ran rheoli tai, yn treialu cynnig arloesol o ran rheoli tai neu'n helpu i roi polisi newydd ar waith ym maes rheoli tai.

Ffefrir prosiectau a fydd yn gweithredu ar lefel fwy rhanbarthol (hy sy'n gweithredu mewn ardal mwy nag un awdurdod lleol) ac a fydd yn cael eu cynnal mewn partneriaeth ag eraill.

Ceisiadau na fydd yn cael eu hystyried

Os yw ceisiadau'n cael eu cyflwyno'n hwyr, os ydynt yn anghyflawn neu o ansawdd gwael a/neu os nad ydynt yn bodloni meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'n cydymffurfio â gweithdrefnau perthnasol eraill sydd ganddi, ni fyddant yn cael eu cyllido.

Ni dderbynnir ceisiadau y bernir eu bod yn gysylltiedig â swyddogaeth rheoli tai y sefydliad o ddydd i ddydd.

Cydraddoldeb

Wrth gyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau, rhaid dangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i bobl y mae un o'r chwe maes cydraddoldeb yn berthnasol iddynt (rhywedd; anabledd; hil; oedran; hoyw, lesbiaidd a deurywiol; a chredoau crefyddol), a byddant yn cael eu hasesu yn ôl pa mor dda y byddant yn gwneud hynny.

Swyddogion Galluogi Tai Fforddiadwy

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod gan bawb yr hawl i gael cartref fforddiadwy, naill fel perchennog, rhan-berchennog neu denant. Stoc o dai o ansawdd da yw sylfaen cymunedau lleol ffyniannus ym mhob cwr o Gymru.

Mae'r ffaith bod prinder tai fforddiadwy yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu nifer o gymunedau yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud ymrwymiad yn *Cymru'n Un* i gyflwyno dulliau newydd o weithredu ac ymyriadau polisi newydd er mwyn

sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael hyd yn oed yn yr ardaloedd hynny lle mae'r pwysau trymaf o ran tai.

Mae'r awdurdodau lleol, ynghyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac adeiladwyr tai yn bartneriaid pwysig o safbwynt darparu tai fforddiadwy. O'r herwydd, bydd dyletswydd statudol ar yr awdurdodau lleol i baratoi cynllun cyflenwi tai fforddiadwy sy'n gyson â'u strategaethau tai eu hunain.

Dyma'r prif elfennau y dylid eu cynnwys yn y Cynlluniau Cyflenwi Tai Fforddiadwy:

- Asesu'r angen am dai fforddiadwy;
- Pennu targed ar gyfer tai fforddiadwy;
- Sicrhau tai fforddiadwy;
- Monitro a gwerthuso'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy.

Felly, croesewir ceisiadau oddi wrth bartneriaethau awdurdodau lleol am gyllid i ariannu swyddogion galluogi tai fforddiadwy a fydd yn cynorthwyo i ddrafftio'r Cynlluniau Cyflenwi Tai Fforddiadwy ac i'w rhoi ar waith.

Y swyddogion hyn hefyd fyddai'n gyfrifol am amryfal dasgau ar draws ardal mwy nag un awdurdod lleol, megis sicrhau bod polisïau cynllunio cadarn yn eu lle ar gyfer tai fforddiadwy; awgrymu safleoedd posibl ar gyfer tai fforddiadwy a mynd ati, yn ôl y gofyn, i drafod cytundebau cynllunio adran 106 gyda'r sector preifat yn ôl y gofyn.

Yr amserlen ar gyfer y prosiectau

O dan y thema hon, mae grantiau ar gael ar gyfer prosiectau sy'n para hyd at ddwy flynedd.

Swyddog Cyswllt Llywodraeth y Cynulliad

Os oes gennych syniad am brosiect posibl o dan y thema hon, dylech gysylltu â Judith Askew ar 01685 729627 neu anfon e-bost at judith.askew@wales.gsi.gov.uk

<u>Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd</u>

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod gwella gwasanaethau cyhoeddus yn fater sydd o'r pwys mwyaf, a cheir tystiolaeth o hyn yn y ddogfen *Creu'r Cysylltiadau - Cyflawni Ar Draws Ffiniau: Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn 2006.

Bydd y rhaglen yn effeithio ar bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod ennyn diddordeb tenantiaid a rhoi rhan iddynt yn y broses o wneud penderfyniadau ac yn y broses o ddarparu gwasanaethau yn amhrisiadwy o ran sicrhau bod modd cynnig y lefelau gorau posibl o wasanaethau i gwsmeriaid. O'r herwydd, ceir cynigion yn *Cyflawni ar Draws Ffiniau* i roi mwy o rôl i'r sector gwirfoddol a chymunedol fel eiriolwyr ar ran dinasyddion.

Gwahoddir ceisiadau, felly, ar gyfer prosiectau a fydd yn helpu i roi dulliau arloesol o weithredu ar waith, a fydd yn canolbwyntio ar y dinesydd, yn cael eu harwain gan y tenantiaid ac a fydd yn cynorthwyo i:

- ddatblygu a gwella systemau sicrhau ansawdd;
- sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael i fwy o bobl;
- mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- sicrhau bod gwasanaethau priodol i wella cartrefi ar gael i fwy o bobl.

Yr amserlen ar gyfer y prosiectau

O dan y thema hon, mae grantiau ar gael ar gyfer prosiectau sy'n para hyd at dair blynedd.

Swyddog Cyswllt Llywodraeth y Cynulliad

Os oes gennych syniad am brosiect posibl o dan y thema hon, dylech gysylltu â Geoff Marlow ar 01685 729200 neu anfon e-bost at geoff.marlow@wales.gsi.gov.uk

Adfywio drwy helpu i wella lefelau gweithgarwch economaidd

Mae cyfradd gyflogaeth o 80% yn un o'r nodau hirdymor a bennir yn *Cymru'n Un*. Yng nghyd-destun economi Cymru, lle mae tua 1.25 miliwn o bobl mewn gwaith (sy'n cyfateb i gyfradd gyflogaeth o oddeutu 72%), mae'r amcan hwn yn un a chryn her ynddo ac mae'n golygu y byddai angen i oddeutu 150,000 yn fwy o bobl fod yn rhan o economi Cymru.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi pennu targed lle'r anelir at sicrhau cyfradd gyflogaeth o 80% ac wedi cyflwyno Deddf Diwygio Lles 2007. O dan y ddeddf honno, caiff y trefniadau ar gyfer budd-dal analluogrwydd eu diwygio drwy gyflwyno Lwfans Cyflogaeth a Chymorth newydd ac Asesiad Galluogrwydd Personol newydd er mwyn asesu'r hyn y mae gan unigolyn yr hawl iddo a'r cymorth posibl y bydd ei angen arno er mwyn mynd yn ôl i fyd gwaith. Mae'r diwygiadau hyn yn allweddol o ran ysgogi'r hyn y mae angen ei wneud yng Nghymru, ond mae'r strategaeth sgiliau a chyflogaeth, *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i fynd ymhellach drwy greu system sgiliau a chyflogaeth integredig yng Nghymru, a fydd yn cael ei rhoi ar waith drwy fynd ati i gynllunio ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r asiantau sy'n gweithredu ar ei rhan.

Gall y sector tai wneud cyfraniad sylweddol yn hyn o beth, a hynny am fod tenantiaid tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar, ac oherwydd hefyd mai ganddynt hwy y mae rhai o'r problemau mwyaf difrifol yng Nghymru o ran sgiliau sylfaenol. Mae'r anweithgarwch hwn i'w weld mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol penodol ac mewn ardaloedd daearyddol penodol, ac mae hyn yn golygu bod rhaniadau'n cael eu creu yn economi Cymru. Er bod y cyfraddau anweithgarwch economaidd wedi bod yn gymharol sefydlog yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf, mae ymchwil wedi dangos bod pedair gwaith yn fwy o gartrefi bellach lle nad oes unrhyw un mewn gwaith. Mae hyn yn dangos maint y broblem. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r niferoedd sydd mewn gwaith wedi newid mewn ffordd ddramatig, gan greu un pegwn lle mae dau aelod o un teulu mewn gwaith a phegwn arall lle nad oes

unrhyw aelod o'r teulu mewn gwaith. Mae hyn yn awgrymu bod agweddau penodol at waith ac at gyflawniad addysgol yn cael eu trosglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall, ac mae angen mynd i'r afael â'r agweddau hyn. Byddwn, felly, yn ystyried ceisiadau ar gyfer prosiectau a fydd yn anelu at fynd i'r afael â'r problemau hyn, ac at gryfhau a meithrin partneriaethau â sefydliadau sy'n darparu rhaglenni cyflogaeth. Byddwn yn ystyried yn benodol geisiadau:

- lle'r anogir tenantiaid i gymryd rhan mewn gweithgareddau a fydd yn eu helpu i oresgyn y ffactorau sy'n eu hatal rhag cael gwaith. Bydd gweithgareddau o'r fath yn cynnwys rhai a fydd yn mynd i'r afael â chyrhaeddiad addysgol isel ac a fydd yn gwella sgiliau a chyflogadwyedd, gan wneud hynny mewn cysylltiad â darpariaeth *O Fudd-dal i Waith* yr Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith;
- a fydd yn darparu gwasanaethau i denantiaid a fydd yn helpu i oresgyn y ffactorau sy'n eu hatal rhag cael gwaith, megis darparu gwasanaethau gofal plant a gofal arall, trafnidiaeth sy'n fforddiadwy ac sydd ar gael yn hwylus, cymorth ychwanegol ar gyfer pobl ag anableddau, a chymorth i oresgyn rhwystrau o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl sy'n atal pobl rhag cael gwaith;
- sy'n cynnig cyfleoedd i denantiaid economaidd anweithgar gael gwaith, bod yn hunangyflogedig, cael cyngor a chymorth, mynd ar brofiad gwaith, gwirfoddoli, manteisio ar wasanaethau broceriaid swyddi, yn ogystal â chynnig cyfleoedd pontio eraill iddynt;
- sy'n sicrhau bod gweithgareddau sy'n anelu at fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd yn dod yn rhan annatod o brosiectau economaidd a datblygu cymunedol ehangach sy'n cael eu cynnal yn lleol.

Yr amserlen ar gyfer y prosiectau

O dan y thema hon, mae grantiau ar gael ar gyfer prosiectau sy'n para hyd at dair blynedd.

Swyddog Cyswllt Llywodraeth y Cynulliad

Os oes gennych syniad am brosiect posibl o dan y thema hon, dylech gysylltu â John Hyde ar 01685 729205 neu anfon e-bost at john.hyde@wales.gsi.gov.uk

<u>Diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio</u>

Yn ystod y deugain mlynedd diwethaf, gwelwyd cynnydd o 30% yn nifer y bobl sydd dros 60 oed yng Nghymru ac erbyn hyn, mae yma bedair gwaith yn fwy o bobl sydd dros 85 oed - yn wir, dangosodd cyfrifiad 2001 bod mwy o bobl dros 60 oed na than 16 oed yn y boblogaeth, a hynny am y tro cyntaf erioed. Erbyn 2011, disgwylir y bydd 26% o'r boblogaeth yn 60 oed neu'n hŷn ac y bydd y ganran honno'n codi i 31% erbyn 2021. Yn ystod yr un cyfnod, disgwylir gostyngiad yn y boblogaeth rhwng 10 a 29 oed.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghenion poblogaeth sy'n heneiddio drwy gyflwyno'r *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru* yn 2003. Cafodd y ddogfen hon sylw rhyngwladol. Aed ati yn ystod ail gam y strategaeth, a gyhoeddwyd yn 2008, i nodi'r amcanion allweddol ar gyfer y bum mlynedd nesaf. Bydd gan yr awdurdodau lleol ran ganolog i'w chwarae yn y gwaith hwn.

Er mwyn gweithredu yn hyn o beth, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwahodd ceisiadau am gyllid drwy'r rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol a fydd yn hyrwyddo arferion da o ran annog yr awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol, y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau eraill i wneud mwy ar ran pobl hŷn drwy:

- hybu iechyd a chyflwyno cynlluniau sy'n helpu pobl i fyw bywydau annibynnol, megis gwella/cynnal a chadw eu cartrefi a chyflwyno technoleg gynorthwyol;
- rhoi gwerth ar bob hŷn, drwy hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chynlluniau sy'n hyrwyddo diogelwch yn y cartref ac yn y gymuned;
- gwella statws economaidd pobl hŷn, gan gynnwys rhoi cymorth i ofalwyr a rhoi mwy o gyfleoedd i wirfoddoli.

Yr amserlen ar gyfer y prosiectau

O dan y thema hon, mae grantiau ar gael ar gyfer prosiectau sy'n para hyd at dair blynedd.

Swyddog Cyswllt Llywodraeth y Cynulliad

Os oes gennych syniad am brosiect posibl o dan y thema hon, dylech gysylltu â Simon Prothero ar 01685 729209 neu anfon e-bost at simon.prothero@wales.gsi.gov.uk

ATODIAD D

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

CYMORTH GRANT O DAN Y RHAGLEN GRANTIAU RHEOLI TAI CYMDEITHASOL

CANLLAWIAU AR LENWI CAIS CAM UN AM GYLLID AR GYFER PROSIECT

2009-10

	CYFFREDINOL
	Dylech lenwi <u>pob</u> rhan o'r ffurflen gais mewn arddull gryno a chlir. Os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â Carl Spiller ar 01685 729211, neu anfon e-bost at housinggrantsadministration@wales.gsi.gov.uk Bydd grantiau ar gael ar gyfer projectau sy'n para hyd at dair blynedd. Ar ôl llenwi'r ffurflen gais, dylid ei hanfon at Carl Spiller yn y Gyfarwyddiaeth Dai erbyn dydd Gwener, 17 Hydref 20078 fan hwyraf. **NI CHAIFF CEISIADAU HWYR EU HYSTYRIED**.

ADRAN	
1 – 2	Hunanesboniadol.
3 – 5	Nodwch enw'r unigolyn sydd yn y sefyllfa orau i ymdrin ag ymholiadau am y prosiect. Os oes ganddo rif ffôn uniongyrchol a chyfeiriad e-bost, dylech eu nodi hwy hefyd.
6	**Partneriaid** - Nodwch enw a statws unrhyw gyrff sy'n bartneriaid a fydd yn gysylltiedig â'r prosiect hwn. Am ba agweddau ar y prosiect y bydd pob corff sy'n bartner yn gyfrifol? Dylech ddisgrifio hefyd pa drefniadau sydd wedi eu gwneud i fonitro hynt y gwaith a wneir gan bob un o'r cyrff hyn. Pa un o'r cyrff a fydd yn gysylltiedig â rhedeg y prosiect fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol drosto?
7	**Y brif thema y mae'r prosiect yn perthyn iddi** - Nodwch i ba brif thema y mae'ch prosiect yn perthyn. Rhestrir prif themâu'r Rhaglen Grantiau Rheoli Tai Cymdeithasol ar gyfer eleni yn Atodiad B i'r llythyr "gwahoddiad i gynnig".

8	**Enw'r prosiect** - rhowch enw i'ch prosiect sy'n dangos yn glir yr hyn y mae'n ymwneud ag ef.
9	**Ardal ddaearyddol y prosiect** – Nodwch yn ardaloedd pa awdurdodau lleol y bydd y prosiect yn cael ei roi ar waith.
10	**Hyd y prosiect** – Nodwch am sawl blwyddyn y bydd y prosiect yn para.
11	**Crynodeb o'r prosiect a'r canlyniadau y bwriedir iddo eu cael** – Rhowch ddisgrifiad byr o'ch prosiect yn y blwch hwn, gan nodi hefyd yr hyn yr ydych yn gobeithio ei gyflawni. Dylech gynnwys popeth, gan amlinellu pwrpas eich prosiect, a rhoi cyfeiriad iddo.
12	**Pwy fydd ar eu hennill yn y pen draw** – defnyddiwch y blwch hwn i ddangos pwy fydd ar eu hennill os caiff eich prosiect ei gyllido.
13	**Gwariant ar y prosiect** – Rhowch amcangyfrif o gost y prosiect (gan gynnwys TAW os yw hynny'n berthnasol), hyd yn oed os dim ond cais am gyfran o gyfanswm cost y prosiect yr ydych yn ei wneud.
14	**Cyllid ar gyfer y prosiect -** Yn y tabl hwn, dylech nodi'r ffynonellau cyllid arfaethedig eraill ar gyfer eich prosiect: • Cyllid cyhoeddus – gan gynnwys cyllid oddi wrth yr awdurdodau lleol, cyllid oddi wrth lywodraeth ganolog, ac unrhyw ffynonellau eraill o gyllid cyhoeddus. • Cyllid nad yw'n gyhoeddus – dylid cynnwys cyllid o'r sector preifat, y sector gwirfoddol, y Loteri Genedlaethol, ac unrhyw ffynonellau eraill o gyllid preifat. • Incwm – rhowch fanylion unrhyw incwm y gallai'r prosiect ei greu. **Nodyn:** Ar gyfer awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig:

	• ni fydd y grantiau a ddyrennir yn fwy na 50% o gostau'r prosiect; • ni ddylai ymgeiswyr gynnwys eu costau rhedeg sylfaenol (e.e. costau staff craidd) yn y cyfraniad o 50% y maent yn ei wneud i'r project. Yn achos pob sefydliad arall, bydd swm y grant y byddwn yn ei roi ar gyfer costau cyffredinol unrhyw brosiect, yn dibynnu ar: • y polisi y mae'r prosiect yn ymwneud ag ef; • natur y sefydliad, a'i sefyllfa ariannol.
15	**Swm y cyllid y gwneir cais amdano o dan y Grant Rheoli Tai Cymdeithasol** – Nodwch faint o grant yr ydych yn gwneud cais amdano.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

CYMORTH GRANT O DAN Y RHAGLEN GRANTIAU RHEOLI TAI CYMDEITHASOL

CAIS CAM UN AM GYLLID AR GYFER PROSIECT

2009-10

1. Enw'r sefydliad sy'n gwneud cais am grant:

2. Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth:

3. Enw'r unigolyn y dylid cysylltu ag ef ynglŷn â'r prosiect hwn:

4. Rhif ffôn:

5. Cyfeiriad e-bost:

Enw'r Ymgeisydd: Dyddiad:

6.	Partneriaid arfaethedig: rhowch fanylion unrhyw bartneriaid a fydd yn gysylltiedig â'r prosiect, gan fanylu hefyd ar sut y bydd y bartneriaeth yn gweithio.

7.	Y brif thema o dan y Rhaglen Grantiau Rheoli Tai Cymdeithasol y mae'r prosiect yn perthyn iddi:

8.	Enw'r prosiect:

9.	Ardal ddaearyddol y prosiect:

10.	Hyd y prosiect:

11.	Crynodeb o'r prosiect:

12.	Sut y bydd y prosiect yn gweithio a phwy fydd ar eu hennill yn y pen draw?

Enw'r Ymgeisydd: Dyddiad:

13. Amcangyfrif o'r gwariant ar y prosiect (gan gynnwys TAW):

Sylwer. Dim ond oriau ychwanegol gan staff (a ychwanegir at eu contractau at ddibenion y prosiect hwn) neu swyddi sy'n benodol ar gyfer y prosiect a gaiff eu cyllido. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn am brawf o unrhyw oriau ychwanegol y mae staff yn eu gweithio.

Gwariant	**Swm**			**Cyfanswm**
	Amcangyfrif 2009 -2010	**Amcangyfrif 2010-2011**	**Amcangyfrif 2011-2012**	**£**
Costau staff:				
Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff:				
Costau eraill y prosiect:				
Taliadau canolog:				
Cyfanswm y gwariant				

14. Amcangyfrif o'r cyllid ar gyfer y prosiect nad yw'n gyllid dan y Rhaglen Grantiau Rheoli Tai Cymdeithasol:

	2009/10		**2010/11**		**2011/12**	
	Y swm y gwnaed cais amdano	**Cadarnhawyd**	**Y swm y gwnaed cais amdano**	**Cadarnhawyd**	**Y swm y gwnaed cais amdano**	**Cadarnhawyd**
Cyllid Cyhoeddus						
Cyllid nad yw'n gyllid cyhoeddus						

15. Swm y Grant Rheoli Tai Cymdeithasol y gwnaed cais amdano:

2009/10	**2010/11**	**2011/12**

Ar ôl llenwi'r ffurflen gais, dylech ei hanfon hi ac unrhyw ddogfennau ategol at:

Carl Spiller
Y Gyfarwyddiaeth Dai
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Mae fersiwn electronig o'r ffurflen hon ar gael o'r cyfeiriad e-bost isod.

Enw'r Ymgeisydd: Dyddiad:

RHAID CYFLWYNO POB CAIS ERBYN 17:00 DYDD GWENER 17 HYDREF 2008

NI FYDDWN YN YSTYRIED CEISIADAU SY'N CYRRAEDD YN HWYR.

Ymholiadau cyffredinol:

e-bost: carl.spiller@wales.gsi.gov.uk

Enw'r Ymgeisydd: Dyddiad: